Dewch i Ddarganfod Bryniau Clwyd AHNE

Mae Bryniau Clwyd yn ymestyn o fryniau'r arfordir uwchben Prestatyn i'r mynyddoedd grug tua'r de. Dyma gadwyn ugain milltir o fryniau sy'n gwahanu Dyffryn Clwyd oddi wrth wastadeddau Sir y Fflint a Sir Caer. Moel Famau yw'r man uchaf, sy'n 1818 troedfedd ac yn amlwg am filltiroedd, gyda thŵr y Jiwbilî ar ei phen. I ddwyrain a gogledd y brif gefnen mae dyffrynnoedd a cheunentydd coediog yr Afon Alun a'r Afon Chwiler gyda'u brigiadau trawiadol o galchfaen a chreigiau. I gydnabod y dirwedd hynod hon dynodwyd Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn 1985, un o bump yn unig yng Nghymru.

Dyma deithiau cerdded i'ch cyflwyno i Fryniau Clwyd. Maen nhw'n amrywio o 4 i 7 milltir ac yn mynd â chi i bob rhan o'r AHNE. Mae'r dirwedd yn golygu y bydd rhaid dringo yn ystod pob un o'r troeon ond mae'r golygfeydd yn werth yr ymdrech.

Ceir tystiolaeth fod pobl wedi byw ym Mryniau Clwyd ers o leiaf 30000 CC., ac mae'r dirwedd sydd i'w gweld heddiw yn ganlyniad i'r ffordd y bu pobl yn rheoli'u cynefin dros filoedd o flynyddoedd; ar gyfer ffermio, mwyngloddio, chwarela, trafnidiaeth a hamdden. Byddai pobl cyn hanes yn defnyddio'r ogofeydd yn Nhremeirchion am loches; gwelir carneddi Oes yr Efydd yma ac acw ar y tir uwch; ceir cadwyn o fryngeyrydd Oes yr Haearn yn gylch o gwmpas nifer o gopaon Bryniau Clwyd. Mae'r bryniau'n gris croes o lwybrau hynafol sy'n hen ffyrdd porthmyn a phynfeirch. Yn ystod yr 19eg ganrif fe ymgyfoethogodd rhai drwy'r mwyngloddiau plwm cynhyrchiol a chafodd llawer waith o'u herwydd.

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Explore the Clwydian Range AONB

Stretching from the coastal hills above Prestatyn to the heather-clad peaks further south, the Clwydian Range is a dramatic twenty-mile chain of hills that separates the Vale of Clwyd from the Flintshire and Cheshire plains. Its highest point, Moel Famau, at 1818ft, is a landmark for miles around, topped with the distinctive Jubilee Tower. To the east and north of the main ridge lie the wooded limestone valleys and gorges of the River Alyn and Wheeler with their impressive limestone outcrops and crags. In 1985 the Clwydian Range was designated as an Area of Outstanding Natural Beauty (AONB), one of only five in Wales, in recognition of its stunning landscape.

The following walks give a good introduction to the Clwydian Range, ranging from 4 -7miles, exploring all parts of the AONB. Due to the terrain all the walks involve some ascent but the superb views from the ridge make the effort worthwhile!

There is evidence of human occupation in the Clwydian Range since at least 30000 BC. The present day landscape is a result of the way people have managed their environment for farming, mining, quarrying, transport and recreation over thousands of years. Prehistoric people used caves in Tremeirchion for shelter; Bronze Age cairns are dotted on the higher ground; a string of Iron Age hillforts encircle several of the Clwydian summits. The range is criss-crossed with ancient trackways, drovers and packhorse routes. During the 19th century several productive lead mines brought prosperity to some and employment to many.

Area of Outstanding Natural Beauty

AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB

Bywyd Gwyllt

Ym Mryniau Clwyd ceir amrywiaeth o gynefinoedd y bywyd gwyllt cyfoethog. Caiff hyn ei ddangos yn y nifer fawr o ddynodiadau cadwraeth natur, wyth o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac un Ardal o Gadwraeth Arbennig. Ar y mynydd ceir ardaloedd sy'n bwysig i nifer fawr o adar prin y rhostir. Gall cerddwyr rannu eu llwybrau i'r copaon â'r ehedydd sy'n codi'n uchel ar yr awel neu'r rugiar ddu a'r rugiar goch sy'n hedfan yn gyflym dros y grug.

Ymhlith dyffrynnoedd coediog serth o galchfaen a phafinau'r tir uchel yn Loggerheads, Llanarmon a Llanferres mae rhai o gynefinoedd unigryw'r DU. Ymysg y coetiroedd ynn trwchus sydd yn glynu at ochrau'r dyffryn ceir glaswelltir calchog yn llawn blodau, gorchudd o felyn llachar y Cor-rosyn a fflach goch Pig yr Aran Rhuddgoch. O dro i dro gwelir gwiber, ymlusgiad prinnaf Prydain, yn torheulo yn y mannau agored.

Yn ddiweddar, fe ddaeth y dyfrgwn yn ôl i'r Afonydd Alun a Chwiler. Dyma arwydd pendant o afonydd iach. Gall dyfrgi nofio ar gyflymder o 12km yr awr ac aros o dan y dŵr am 8 munud, er hynny maen nhw'n treulio dwy ran o dair o'u bywydau ar dir sych. Yn raddol, mae'r llygoden y dŵr yn dychwelyd i'r dyfroedd ym Mryniau Clwyd. Gostyngodd eu niferoedd gymaint nes eu bod erbyn hyn yn famal prinnaf Prydain.

Ardal o Harddwch Naturíol Eithríadol

Wildlife

The Clwydian Range provides a diverse and rich variety of wildlife habitats. The high number of nature conservation designations, eight Sites of Special Scientific Interest and one Special Area of Conservation, reflect this. The central moorland area provides valuable nesting areas for many rare heathland birds. Walkers share their way to the summits with the skylark hanging high on the breeze or the red or black grouse flying fast and low across the heather.

The steep wooded limestone valleys and upland pavements of Loggerheads, Llanarmon and Llanferres provide some of the UK's most unique habitats. The dense ash woodlands that hang onto the steep valley sides are interspersed with flower-rich limestone grasslands abundant with vibrant yellow carpets of rock rose and red splashes of bloody cranesbill. Adders, one of Britain's rarest reptiles, can sometimes be seen basking in these open sunny areas.

In recent years otters have returned to the River Alyn and Wheeler, a sure sign that the rivers are healthy. Although otters can swim at up to 12km per hour and stay under water for up to 8 minutes they actually spend two thirds of their time on dry land. Watervoles are also slowly returning to the smaller watercourses of the Clwydian Range. Immortalised as "Ratty" in Wind in the Willows, watervole numbers have declined so much that they now have the dubious title of Britain's rarest mammal.

Area of Outstanding Natural Beauty

AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB

Y Dirwedd

Mae daeareg Bryniau Clwyd yn adrodd hanes am gefnforoedd dyfnion, moroedd trofannol bas, anialdiroedd ac ia. Carreg laid a thywodfaen Silwraidd yw'r creigiau hynaf. Gadawyd y rhain ar waelod y môr tua 420 miliwn o flynyddoedd yn ôl pan roedd Cymru yn gorwedd i'r de o'r cyhydedd. Roedd y moroedd hyn yn gyforiog o greaduriaid y môr, yn enwedig anifeiliaid mân cytrefol a elwir yn graptolitau, a ffosileiddiwyd yn y creigiau. Ar droad yr 20fed ganrif, fe astudiodd merched arloesol yr anifeiliaid hyn er mwyn darganfod hanes cymhleth creigiau Clwyd. Ystyrid y gwaith yn addas i ferched am ei fod yn gofyn am amynedd a dyfalbarhad.

Ar yr ochr orllewinol, mae Ffawt Dyffryn Clwyd, sy'n gwneud yr ochr hon yn serth iawn. Gwelir clytiau bach o dywodfaen coch y diffeithdir yma, a dyna pam ceir yr elfen 'rhudd' neu 'coch', yn yr enwau lleol. I'r dwyrain mae Dyffryn yr Afon Alun yn gwahanu creigiau hŷn Bryniau Clwyd oddi wrth y calchfaen carbonifferaidd ieuengach sydd yn Loggerheads, Maeshafn a Bryn Alun. Llifodd toddiannau i'r ffawtiau a'r holltau oedd yn y garreg galch gan greu gwythiennau o blwm, copr, arian a mwyn sinc.

Naddodd yr Afon Alun lwybr troellog drwy'r calchfaen gan dorri ceunentydd dyfnion neu gan ymddolennu o gwmpas creigiau uchel, garw. Yn yr haf, mae rhannau o'r afon yn diflannu i dyllau llyncu yn y garreg galch ac i'r ogofeydd tanddaearol gan adael rhannau o wely'r afon yn sych.

Yn fwy diweddar, gorchuddiwyd yr ardal â haenen o ia hyd at filltir o drwch. Fe gerfiodd hwn y peirannau a'r dyffrynnoedd siâp 'U', y bryniau crwm ac, wrth i'r ia ddadmer tua 17000 o flynyddoedd yn ôl, fe adawodd gymysgedd o greigiau wedi'u malu, tywod, llaid, gro a meini (meini dyfod) dros lawer o Fryniau Clwyd.

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Landscape

The geology of the Clwydian Range tells a story of deep oceans, shallow tropical seas, deserts and ice. The oldest rocks are Silurian mudstone and sandstones laid down in a deep ocean 420 million years ago, when Wales lay south of the equator. These seas were rich in sea creatures, especially tiny colonial animals called graptolites, which have been fossilised in the rocks. At the turn of the 20th century, pioneering women geologists studied these animals to determine the complex history of the Clwydian rocks. It was considered suitable work for women as it required 'great patience and perseverance'!

On the western side is the Vale of Clwyd Fault, which makes this side is very steep. Small patches of red, desert sandstones can also be found here. This is the origin of 'coch', meaning red, in local place names. To the east, the Alyn Valley separates the older Clwydian Range from the younger Carboniferous limestone of Loggerheads, Maeshafn and Bryn Alyn. Mineral-rich solutions flowed into the faults and fractures in the limestone, forming seams of lead, copper, silver and zinc ore.

The River Alyn has carved a winding path through the limestone, cutting deep gorges or meandering around high rugged cliffs. In the summer some sections of the river disappear through swallow holes in the limestone into underground cave systems leaving long stretches of the river bed dry.

More recently, the area was covered in an ice sheet up to a mile thick. This carved out cwms and U-shaped valleys, rounded the hills and, as the ice melted about 17000 years ago, deposited a mixture of ground-up rock, mud, sand, gravel and boulders (glacial erratics) over much of the Clwydian Range.

Area of Outstanding Natural Beauty

O Gwmpas

Yn swatio ar lethrau isaf Bryniau Clwyd mae'r pentrefi tlws, o gwmpas eu heglwysi hynafol. Yn sawl pentref mae tafarndy lliwgar neu gaffi sy'n croesawu cerddwyr. Beth am alw heibio am fwyd a llymaid ar ôl eich tro?

Lle da i ddechrau gweld ardal Bryniau Clwyd yw Parc Gwledig Loggerheads ac mae'r Ganolfan Cefn Gwlad yn ddelfrydol i ddysgu am yr AHNE a'r ardal o gwmpas ac i brynu map neu swfenîr. Mae'r ganolfan ar agor bob penwythnos gydol y flwyddyn, a bob dydd yn yr haf a gwyliau'r ysgol (ffôn: 01352 810586). Teithiau cerdded da i'r teulu yw'r llwybrau Darganfod a Diwydiannol byr sy'n cynnig dewis i'r rhai nad ydynt am gerdded y llwybrau hirach yn y llyfryn hwn. Yng Nghaffi Florence ceir dewis o de pnawn, cinio a byrbrydau safonol.

Mae Parc Gwledig Moel Famau a Choed Moel Famau hwythau'n lleoedd gwych i ddechrau darganfod yr AHNE gan ddefnyddio rhwydwaith o lwybrau sydd ag arwyddion ac sy'n arwain o'r meysydd parcio (codwch daflen o'r Ganolfan Cefn Gwlad). Mae'r dro i Dŵr y Jiwbilî ar ben Moel Famau, er iddi fod ychydig yn serth, yn cynnig golygfeydd gwych dros Eryri yn y gorllewin a thua Lerpwl ac Aber yr Afon Ddyfrdwy yn y dwyrain. Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n ymestyn o Brestatyn i Gas Gwent yn rhedeg bron ar hyd holl gefnen Bryniau Clwyd.
Ceir dewis da o lety yn agos at y llwybr ac mae'n ffordd wych i gael profiad o Fryniau Clwyd.
www.ahnebryniauclwyd.org.uk

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Out and About

Picturesque villages nestle in the lower slopes of the Clwydian Range, each clustered around an ancient church. Many have characterful pubs or cafes offering a warm welcome to walkers. Why not stop for food and refreshments after your walk?

Loggerheads Country Park is a good starting point for exploring the Clwydian Range. The Countryside Centre is an ideal place to get information about the AONB and the surrounding area and to buy a map or souvenir. It is open every weekend throughout the year and daily in the summer and school holidays (tel: 01352 810586). The short, waymarked Discovery and Industrial Trails are good family walks and provide an interesting alternative for those unable to try the longer routes described in this booklet. Caffi Florence offers quality afternoon teas, lunches and snacks.

Moel Famau Country Park and Coed Moel Famau are also ideal bases for exploring the AONB using the network of waymarked trails that lead from the car parks (pick up a leaflet from the Countryside Centre). The walk to the Jubilee Tower on the summit of Moel Famau, although a little steep in places, is rewarded by magnificent views across to Snowdonia in the west and out to Liverpool and the Dee Estuary in the east. Offa's Dyke National Trail, which runs from the coast at Prestatyn to Chepstow in South Wales, follows almost the whole length of the Clwydian Range ridge. There is a good choice of accommodation close to the route and it is a great way to experience the Clwydian Range.
www.clwydianrangeaonb.org.uk

Area of Outstanding Natural Beauty

AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB